I'm a Scientist Get me out of here

Kit Nº8

e-Bug www.e-bug.eu

# Pecyn Dadlau: Brechiadau

**Am fwy o weithgareddau a phecynnau dadlau yn y gyfres ewch i debate.imascientist.org.uk**

## Pecyn Dadlau: Brechiadau

## A ddylai plant orfod cael eu holl frechlynnau cyfredol i fynd i'r ysgol?

Dadl ymarfer strwythuredig ar bwnc dadleuol. Mae gwahanol ‘rowndiau’ y ddadl yn helpu myfyrwyr i feddwl drwy'r materion ac ailfeddwl eu barn. Mae'r strwythur hefyd yn dangos iddynt sut i adeiladu trafodaeth ac ategu eu barn â ffeithiau.

Gallwch ddefnyddio pob un o'r wyth nod, neu lai, fel y dymunwch. Yr isafswm yw'r pedwar cymeriad hanfodol (mewn print trwm), mae hyn yn rhoi dau o blaid a dau yn erbyn.

### Cymeriadau

| O blaid - dylai brechlynnau fod yn orfodol i fynychu'r ysgol | Yn erbyn - ni ddylai brechlynnau fod yn orfodol i fynychu'r ysgol |
|---|---|
| • **Harri Robin - Nyrs** | • **Ethan Edwards- Gweithredwr gwrth-frechu** |
| • **Hasmita Myska - Rhiant** | • **Martha Williams - Ymwelydd iechyd cymunedol** |
| • Steve Evans - Rhiant | • Flora Eccrington - Awdur |
| • Polly Jones - Athronydd | • Jake Lawrence - Yn ei arddegau heb ei frechu |

### Wrth hwyluso

Sicrhewch fod y disgyblion yn gwybod nad oes ateb cywir nac anghywir.
Byddwch yn sylwgar o'r rhai sydd eisiau siarad ac nad ydyn nhw'n cael cyfle.
Annogwch fyfyrwyr i roi rheswm dros eu barn.
Ar gyfer grwpiau a allai fod angen cymorth ychwanegol gallwch roi'r brawddegau canlynol ar y bwrdd gwyn ar unrhyw adeg: -
*“Rwy'n credu y dylem/na ddylem wneud brechiadau yn orfodol oherwydd ...”*
*“Rwy’n credu mai ……………… yw’r pwynt pwysicaf i feddwl amdano.”*

**Dyluniwyd ar gyfer 11-18 oed**

## Nodiadau dysgu

### Amcan dysgu::

• Ymarfer trafod a dadlau materion a mynegi barn.

• Deall y materion technegol, cymdeithasol a moesegol sy'n ymwneud â brechiadau.

### Canlyniadau dysgu eraill:

• Ystyried materion cymdeithasol, moesegol a ffeithiol mewn ffordd integredig.

• Meddwl am wahanol safbwyntiau.

• Dysgu ategu barn gyda ffeithiau.

### Pwyntiau cwricwlwm dan sylw:

Gweithio'n wyddonol
• Agweddau cymdeithasol ar dystiolaeth wyddonol.

• Datblygu dadl.

Sylweddol
• Dysgu sut mae brechlynnau'n gweithio.

• Dysgu sut mae ein cyrff yn amddiffyn eu hunain rhag haint.

# Dadl

## Harri Robin - nyrs



**Dwi'n hoff iawn o frechlynnau! Daliodd fy Nhad polio yn blentyn a chafodd ei barlysu mewn un goes am oes. Effeithiodd yn fawr arno. Ac eto, gallai fod wedi'i atal gydag un brechlyn bach.** Pan fyddaf yn rhoi pigiadau i blant, dywedaf wrthynt fy mod yn rhoi uwch-bwer iddynt, gan eu gwneud yn imiwn rhag haint. Rwy'n credu ei fod yn wyrth. Rwy'n credu y dylem wneud popeth i amddiffyn mwy o blant.

**Ffaith:** Os yw plentyn yn ddigon hen i ddeall a gwneud ei benderfyniadau ei hun, gall meddyg neu nyrs roi triniaeth feddygol i'r plentyn, p'un a yw ei rieni'n cytuno ai peidio. Gall meddygon teulu neu nyrsys bob amser roi imiwneiddiadau 'dal i fyny' os gofynnir iddynt.

**Y Ddadl:** Byddai brechu gorfodol i fynd i'r ysgol yn un hwb ychwanegol tuag at imiwneiddio pob plentyn. Os yw'n arbed dim ond un plentyn rhag salwch erchyll yna rwy'n credu ei fod yn werth chweil..

**Cwestiwn:** Os GALL meddygaeth fodern amddiffyn plant rhag heintiau peryglus, oni ddylem wneud popeth i sicrhau ei fod YN GWNEUD?

# Dadl

## Martha Williams - Ymwelydd iechyd cymunedol



**Rwy'n ymwelydd iechyd mewn dinas fawr. Rwy'n ymweld â mamau newydd ac yn ceisio helpu i sicrhau bod eu babanod yn ddiogel ac yn iach.** Mae gan rai o'r mamau yr ymwelaf â hwy lawer o broblemau - materion iechyd meddwl, tlodi, partneriaid neu gyn bartneriaid treisgar. Nid yw rhai ohonynt yn siarad Saesneg da. Mae'n anodd i rai gael mynediad at wasanaethau.

**Ffaith:** Mewn astudiaeth yn 2006, roedd tua 3% o fabanod 9 mis oed wedi colli RHAI o'u himiwneiddiadau. Yn gyffredinol roeddent yn dod o deuluoedd difreintiedig. Yn yr un astudiaeth roedd oddeutu 1% HEB EU IMIWNEIDDIO O GWBWL, ac yn gyffredinol roeddent yn dod o deuluoedd mwy cefnog a oedd yn gwrthwynebu imiwneiddio.

**Y Ddadl:** I'r rhan fwyaf o'r plant sy'n colli imiwneiddiadau, mae dim ond oherwydd bod eu teuluoedd yn cael trafferth ac yn cael problemau.

**Cwestiwn:** Nid yw'r ffaith nad yw plant wedi derbyn eu holl frechlynnau yn golygu na ddylent fynychu'r ysgol. Pa les a wna i gosbi pobl sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd?

# Dadl

## Jake Lawrence - bachgen yn ei arddegau heb ei frechu



**Ni chefais y pigiad MMR oherwydd bod fy rhieni'n poeni am awtistiaeth.** Ers hynny mae gwyddoniaeth wedi dangos bod y brechlyn yn ddiogel. Ond mae fy nhad yn argyhoeddedig nad yw brechlynnau'n ddiogel. Rwyf am fynd i'r ysgol, ond efallai na fyddaf yn gallu pe byddent yn newid y gyfraith.

**Ffaith:** Gwnaeth Andrew Wakefield astudiaeth ym 1998 a oedd fel petai'n dangos cysylltiad rhwng y pigiad MMR ac awtistiaeth. Ers hynny mae wedi cael ei ddileu gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol am anonestrwydd a'i wahardd rhag gweithio eto fel meddyg yn y DU. Mae ymchwiliad wedi dangos bod ei ymchwil yn ddiffygiol iawn.

**Problem:** Dylai pob plentyn gael cyfle i gael addysg. Ni ddylai brechlynnau fod yn orfodol er mwyn mynychu ysgolion.

**Cwestiwn:** Pam rhoi MWY o broblemau i blant sydd heb eu brechu?

# Dadl

## Poli Jones - Athronydd



**Rwy'n astudio cwestiynau moesol sy'n ymwneud ag iechyd a meddygaeth. Rwy'n credu y dylai brechiadau fod yn orfodol. Os yw digon o bobl yn cael eu brechu yna mae** PAWB yn elwa o imiwnedd poblogaeth. Felly rwy'n credu ei bod hi ond yn deg y dylai pawb gymryd rhan. (Oni bai bod rhesymau meddygol pam na allant wneud hynny.)

**Ffaith:** Rhaid i rai brechlynnau fod yn frechlynnau 'byw' i weithio (mae hyn yn cynnwys y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a'r brechlynnau ffliw newydd sy'n cael eu rhoi i blant fel chwistrell trwynol). Mae hynny'n golygu eu bod yn rhoi ffurf wan iawn o'r haint i chi a gallent eich gwneud ychydig yn sâl.

**Y Ddadl:** Mae pobl sy'n dewis peidio â brechu yn gwybod, os yw pawb arall YN brechu, mae'n debyg bod eu plant yn dal yn ddiogel. Felly maen nhw'n cymryd mantais!

**Cwestiwn:** Pam ddylai rhai pobl elwa heb yr anghyfleustra neu'r risg (waeth pa mor fach) o gael y brechlyn?

# Dadl



## Hasmita Myska - rhiant

**Mae gan fy machgen hardd lewcemia, math o ganser. Mae'n cael cemotherapi a gobeithio y bydd yn gwella'n llwyr.** Ond mae'r driniaeth yn atal ei system imiwnedd fel na all gael unrhyw frechlynnau byw, fel MMR, nes ei fod yn well. Mae yna rai plant heb eu brechu yn ei ysgol gynradd. Rwyf ofn am fy mywyd ei fod yn mynd i ddal y frech goch oddi wrth blentyn sydd heb ei frechu a marw o hynny, a does dim y gallaf ei wneud i'w amddiffyn.

**Ffaith:** Bydd rhai pobl bob amser na allant gael brechlyn am resymau meddygol. Ond os yw digon o bobl eraill yn cael eu brechu, ni all yr haint ledu, felly mae pawb yn cael eu hamddiffyn. Gelwir hyn yn imiwnedd poblogaeth.

**Y Ddadl:** Mae imiwnedd poblogaeth yn dibynnu ar nifer uchel o bobl yn cael eu brechu. Rwy'n credu y DYLID cyfyngu ar ryddid pobl os ydyn nhw'n peryglu eraill. Yn union fel ei bod hi'n anghyfreithlon yfed a gyrru..

**Cwestiwn:** Nid oes gan fy mhlentyn unrhyw ddewis, ni all gaelei frechu. Pam fod gan rieni eraill yr hawl i roi fy mhlentyn mewn perygl?

# Dadl



## Flora Eccrington - awdur

**Rwy'n ysgrifennu llyfr am y frech wen, haint a allai ladd 80% o blant heintiedig. Variolation oedd yr ymdrechion cynharaf i imiwneiddio yn ei erbyn.** Yn China yn y 15fed ganrif byddent yn chwythu crach y frech wen wedi ei wneud yn bowdr i fyny trwynau pobl! Roedd brechlynnau'r 18fed Ganrif yn seiliedig ar frech y fuwch yn fwy diogel ond er hynny, roedd rhai pobl yn eu gwrthwynebu.

**Ffaith:** Yn 1853 gwnaeth llywodraeth Prydain frechiadau o'r frech wen yn orfodol i blant a gwrthwynebodd llawer o bobl. Roedd terfysgoedd gwrth-frechu mewn sawl dinas.

**Y Ddadl:** Mae'n anghywir ceisio gorfodi pobl i wneud pethau, ac mae'n aml yn gwneud pethau'n waeth, gan eu gwneud yn fwy penderfynol i beidio â'i wneud.

**Cwestiwn:** Pam ceisio gorfodi pobl i wneud rhywbeth, pan allech chi weithio gyda nhw, a cheisio eu perswadio yn lle?

# Dadl



## Ethan Edwards - actifydd gwrth-frechu

**Rwy'n amheus ynghylch diogelwch brechlynnau, yn enwedig MMR. Nid wyf yn credu'r hyn y mae meddygon a gwyddonwyr yn ei ddweud nawr.** Ni allant fod yn SIWR, nad ydynt yn achosi problem, felly pam cymryd y risg? Mae'n well gen i adael i'm plant gymryd eu siawns i ddal yr haint. Cefais y frech goch pan oeddwn i'n blentyn ac roeddwn i'n iawn. Mae'n debyg ei bod yn well i'w system imiwnedd beth bynnag ymladd pethau eu hunain.

**Ffaith:** Ym 1955, rhoddwyd brechlyn polio ar gam i 200,000 o blant yn UDA pan nad oedd y firws wedi cael ei anactifadu'n iawn. Bu farw 10 ohonyn nhw a pharlyswyd 200 ohonyn nhw.

**Y Ddadl:** Dylai fod yn ddewis gennych p'un a ddylid gwneud rhywbeth i'ch cyrff, neu gyrff eich plant.

**Cwestiwn:** Os oes unrhyw risg o gwbl i gael brechlyn, yna oni ddylem ni ddewis a ddylid ei gymryd?

# Dadl



## Steve Evans - Rhiant

**Pan oedd fy merch Anna yn fabi, collais fy swydd. Aeth y cwmni y bûm yn gweithio iddo yn fethdalwr. Ni chefais y tâl oedd yn ddyledus imi, ni allem dalu ein morgais.** Yn yr holl straen hwnnw, gwnaethom anghofio pigiadau arferol Anna. Yn fuan ar ôl iddi ddechrau'r ysgol cafodd Llid yr ymennydd C. Bu bron iddi farw, a gadawyd hi â niwed i'r ymennydd a phroblemau clyw. Pe bai'n rhaid iddi gael ei brechlynnau cyn dechrau'r ysgol, byddem wedi ei brechu!

**Ffaith:** Mae yna wahanol fathau o lid yr ymennydd, ac mae tri brechlyn yn helpu i'n hamddiffyn rhag gwahanol fathau - Hib, MenC a niwmococol. Fe'u rhoddir i gyd i fabanod yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd ac maent yn eu hamddiffyn am nifer o flynyddoedd.

**Y Ddadl:** Rwy'n credu mai hawl y plentyn i gael ei frechu ddylai fod y peth pwysicaf.

**Cwestiwn:** Oni ddylem ni fel cymdeithas fod yn amddiffyn plant rhag rhieni anghofus, neu rieni nad ydyn nhw'n cytuno â brechlynnau, trwy wneud brechiadau yn orfodol er mwyn mynd i'r ysgol?

Kit Nº 8

Teacher Notes

## *Cwestiwn: A ddylai fod angen set lawn o frechiadau cyfredol cyn y gall plentyn fynychu'r ysgol?*

*Nid dadl yw hon ynghylch diogelwch brechlynnau neu os ydyn nw'n syniad da. Mae digon o adnoddau ar y pwnc hwnnw eisoes yn bodoli, ac mae'r wyddoniaeth yn dod i lawr yn drwm ar ochr brechlynnau gan eu bod yn fwy diogel na dal afiechydon trosglwyddadwy. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â beth yw'r polisi iechyd cyhoeddus gorau, i amddiffyn y cyhoedd, gan gydbwyso rhyddid unigol yn erbyn iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn arwain at ddadl fwy cytbwys, a ddylai felly fod yn fwy diddorol.*

## Cynllun gwers

*Mae gwahanol 'rowndiau' y ddadl yn helpu myfyrwyr i feddwl drwy'r materion ac i ailystyried eu barn. Mae'r strwythur hefyd yn dangos iddynt sut i adeiladu trafodaeth ac ategu eu barn â ffeithiau.*

**Cychwyn : 5 munud.**
A yw'ch myfyrwyr yn gwybod beth yw brechiadau?
Pa frechiadau y mae plant yn eu cael fel arfer ac ar ba oedrannau?
Pa frechiadau y mae'r myfyrwyr yn y dosbarth wedi'u cael neu beidio? Ydyn nhw'n gwybod sut mae brechlynnau'n gweithio?

A oes gan fyfyrwyr farn eisoes ar y cwestiwn a ddylai cael brechlynnau perthnasol fod yn orfodol i fynd i'r ysgol? Gofynnwch eu barn a llenwch y cwestiwn cyntaf ar yr arolwg ar-lein (dadl.imascientist.org.uk/vaccinations-debate-kit-resources/)

Dyluniwyd ar gyfer 11-18 oed

I'm a Scientist Get me out of here

**Prif Weithgaredd: 35 munud.**

1) **Rhannwch y myfyrwyr yn** gynifer o groups **grwpiau** â chymeriadau yr ydych chi am eu cynnwys.
2) **Rhowch y cardiau cymeriad** iddyn nhw - un i bob grŵp, a rhowch ychydig funudau iddyn nhw eu darllen.
3) Gofynnwch i un myfyriwr ym mhob grŵp **ddarllen yr adran gyntaf** i weddill y dosbarth.
   Beth yw barn y dosbarth? A oes un safbwynt y maent yn uniaethu â hi neu'n ei wrthod?
4) Cymeryd tro i **ddarllen eu ffaith**. Ydy hyn yn newid y ffordd y maen nhw yn meddwl?
5) **Darllenwch y ddadl.** Unrhyw wahanol deimladau?
6) Mae pob **grŵp yn gofyn eu cwestiwn i gymeriad o'u dewis.**

**I orffen : 10 munud**
Nawr bod myfyrwyr wedi cael cyfle i ddadlau ac wedi clywed llawer o wahanol farnau ar y pwnc brechlynnau, beth yw eu barn nhw eu hunain? Ydyn nhw wedi newid eu meddyliau? Pam?

Pleidleisiwch dros y safbwynt y maen nhw'n cytuno gyda (os oes un). Llenwch drydydd cwestiwn yr **arolwg ar-lein.**

## Nodiadau cefndir i athrawon

**Polisi cyfredol**
Yn y DU ac Iwerddon, nid oes angen brechlynnau ar blant i fynychu'r ysgol. Mewn gwledydd eraill (e.e. UDA a Chanada) mae angen set lawn o frechlynnau er mwyn i blant fynychu'r ysgol.
Er gwaethaf hyn, mae'r cyfraddau brechu yn y gwledydd hyn yn gymharol. Er enghraifft, mae nifer y plant a gafodd y brechlyn MMR yn 2019 yn debyg yn y DU ac UDA - 91% o'i gymharu â 90% yn y drefn honno.
Mae **brechlynnau** yn baratoadau biolegol sy'n cymell imiwnedd i haint penodol. Gall asiantau heintus fod yn firysau, bacteria neu barasitiaid. Brechlynnau yw'r cynnyrch, ac imiwneiddio yw'r canlyniad.

Mae'r brechlyn Oxford/AstraZeneca ar gyfer COVID-19 hefyd o'r math yma.

**Brechlynnau RNA -** dyma'r mathau mwyaf newydd o frechlynnau sydd yn defnyddio copi o gemegyn naturiol a elwir yn 'messenger RNA' (mRNA) i gynhyrchu ymateb imiwn. Mae'r brechlynnau Pfizer a Moderna ar gyfer COVID-19 o'r math yma. Maent hefyd yn cael eu treialu ar gyfer clefydau eraill, gan gynnwys canser.

**Hanes brechlynnau**
Dywed y rhan fwyaf o bobl mai'r brechlyn cyntaf oedd Jenner yn defnyddio brech y fuwch i frechu yn erbyn y frech wen (smallpox). Mewn gwirionedd, roedd ffermwyr llaeth wedi sylwi ers amser nad oedd pobl oedd wedi cael brech y fuwch yn cael y frech wen. Llwyddodd Benjamin Jesty, ffermwr o Dorset, i frechu ei wraig a'i blant yn erbyn y frech wen gan ddefnyddio crawn brech y fuwch ym 1774!

Ond nid hyd yn oed y rhain oedd y brechiadau cynharaf yn erbyn y frech wen. Defnyddiwyd gwahanol ffurfiau o 'variolation' yn Tsieina a'r Dwyrain Canol, ganrifoedd ynghynt. Roedd y rhain yn cynnwys chwythu crach y frech wen wedi ei droi yn bowdr i fyny trwynau pobl, neu rwbio deunydd gan gleifion y frech wen i doriadau ym mreichiau pobl.

Roedd Variolation yn gyffredin yn Tsieina, y Dwyrain Canol ac Affrica erbyn yr 17eg Ganrif, er ei fod yn cael ei ystyried yn 'lên gwerin ofergoelus' gan lawer o feddygon Ewropeaidd. Ac eto, hwn oedd y ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn rhag y frech wen. Yn y diwedd fe ddechreuwyd ei gyflwyno i Ewrop ar ddechrau'r 18fed Ganrif.

Yn ddiweddarach, ym 1796, defnyddiodd Jenner crawn o bothelli brech y fuwch i frechu bachgen ifanc. Yna dangosodd fod y bachgen a phobl eraill yr oedd wedi'u brechu yn imiwn i'r frech wen. Ysgrifennodd ei ganfyddiadau mewn papur gwyddonol. Erbyn 1807 roedd Coleg Brenhinol y Meddygon wedi cadarnhau bod brechu yn gweithio.

Os ydych chi'n gwella o haint naturiol mae'ch corff wedi dysgu adnabod y pathogen a'i ymladd. Rydych chi wedi gwneud gwrthgyrff sy'n adnabod rhan o'r pathogen (a elwir yn **antigen**). Ar ôl i chi wella o'r haint, fel rheol bydd gennych niferoedd bach o'r gwrthgorff yn eich corff am byth, yn ogystal â chelloedd y system imiwnedd sydd wedi'u rhaglennu i ymladd yr haint. Os byddwch chi'n dod ar draws yr un haint eto, gall eich corff greu ymateb imiwn yn gyflym, heb i chi orfod mynd yn sâl yn gyntaf. Gelwir hyn yn **imiwnedd a gafwyd yn naturiol**.

Mae **brechu** yn ffordd o roi'r gwrthgorff a'r imiwnedd hwnnw i chi, HEB ichi gael haint go iawn. Mae yna wahanol ffyrdd o wneud hyn: -

**Brechlynnau byw, gwanedig** – rhoddir fersiwn wannach o'r pathogen i'r claf. Maent yn dal i gael haint, ond mae hyn yn ysgafn iawn neu heb sylwi arno o gwbl, a bydd eu corff yn ymateb yn imiwn. e.e. Brechlynnau MMR a rotavirus.

**Brechlynnau anactif/marw** – mae'r claf yn derbyn pathogen marw, ond sydd â'r darnau antigen o hyd. e.e. brechlynnau polio (IPV), pertwsis/y pas (neu whooping cough) a hepatitis A.

**Brechlynnau tocsoid -** cynnwys tocsin anactif, ar gyfer heintiau bacteriol lle mai tocsin a gynhyrchir gan y bacteria yw prif achos y salwch. e.e. difftheria, tetanws.

**Brechlynnau isuned/cyfieuol -** mae'r rhain yn cynnwys dim ond darnau wedi'u torri i fyny o'r pathogen (h.y. antigenau), y mae gwyddonwyr wedi canfod bod ein cyrff yn dda am ymateb iddynt. Gallant gynnwys rhwng 1 ac 20 o antigenau gwahanol. e.e. brechlyn ffliw (pigiad y ffliw) a brechlynnau niwmococol.

**Brechlynnau wedi'u fectoreiddio -** weithiau rydyn ni'n defnyddio un firws sy'n ddiogel i ddosbarthu darnau o firws arall i'r system imiwnedd. Mae hyn yn ddefnyddiol os yw'r firws targed yn beryglus ac yn anodd gweithio gydag ef. Mae'r brechlynnau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer rheoli achosion o Ebola yn Affrica fel hyn.

Erbyn 1980 roedd y frech wen wedi'i dileu o'r blaned trwy frechu eang. Mae'r unig firysau y frech wen hysbys sy'n weddill yn y byd yn cael eu cynnal mewn dau labordy - un yn UDA ac un yn Rwsia.
Er y daethpwyd o hyd i ampwl anghofiedig o firws y frech wen yn ddiweddar mewn oergell labordy yn Maryland. Mae arbenigwyr o'r farn ei bod hi'n bosibl bod stociau eraill mewn mannau eraill hefyd.

Yn ôl ym 1853, pan oedd y frech wen yn rhemp, gwnaed brechu yn orfodol gan y Ddeddf Brechu. Er i'r frech wen ladd hyd at 80% o fabanod heintiedig ar yr adeg honno, roedd gwrthwynebiad i'r brechlyn gorfodol. Roedd pobl yn poeni am ddiogelwch y brechlynnau ac roeddent yn amheus o orfod gwneud pethau i'w cyrff oherwydd y gyfraith. Roedd terfysgoedd yn Ipswich, Henley, Mitford a threfi eraill. Mae'r mudiad gwrth-frechu hwn yn dal i fodoli mewn rhai lleoedd heddiw.

**Dylanwad y cyfryngau ar gyfraddau brechu**
Dechreuodd y dychryn MMR yn y DU ym 1998 gyda phapur (sydd bellach yn anfri ac wedi'i dynnu'n ôl) yn The Lancet gan Andrew Wakefield. Awgrymodd y papur fod sgîl-effeithiau gyda'r brechlyn yn achosi syndrom perfedd anarferol y gellid ei gysylltu ag awtistiaeth. Cafodd canfyddiadau'r astudiaeth fach iawn hon (ac, fel y gwyddom bellach, diffygiol) eu cyhoeddi gan lawer o'r wasg, heb roi amser i wyddonwyr ymchwilio nac ymateb.

Plymiodd cyfraddau brechu MMR, gan arwain at achosion o'r frech goch, sydd wedi parhau mewn oedolion ifanc. Ers hynny mae pob darn o dystiolaeth yn cefnogi'r syniad bod y brechlyn MMR yn hollol ddiogel, ac yn gynyddol, mae'r cyhoedd wedi sylweddoli hyn. Yn dilyn sylw llawer mwy ffafriol yn y wasg ac ymgyrchoedd i gynyddu brechu, cyrhaeddodd cyfraddau MMR uchafswm rhwng 2011/12 a 2013/14 (roedd e gan 92.7% o fabanod yn 2014 erbyn 2 oed, y ffigur isaf a gofnodwyd oedd 79.9% yn 2003-4 ). Ers 2014, mae'r cyfraddau wedi gostwng ond yn dal i fod yn uwch na 90%.
Efallai bod gennych chi ddisgyblion na chawsant eu brechu oherwydd y ddadl, ac sydd erioed wedi dal i fyny.

**Brechiadau dal i fyny**
Mae'n syml cael brechiadau dal i fyny ar unrhyw oedran gan eich meddyg teulu. Fel arfer byddai pobl ifanc yng nghwmni rhiant.
Ond os yw eu rhieni'n anghytuno a bod person ifanc eisiau cael ei frechu, yna gellir eu trin heb gydsyniad rhieni, os yw'r meddyg neu'r nyrs yn eu barnu i fod yn 'Gillick cymwys'. h.y., yn eu barn nhw, mae'r person ifanc yn deall y driniaeth y mae'n gofyn amdani a gall roi caniatâd gwybodus. Byddai hyn bron yn sicr yn wir am blentyn 13 oed neu'n hŷn, yn gofyn am frechiadau dal i fyny.

Ymchwiliwyd i'r holl ffeithiau yn y pecyn hwn.
Gellir dod o hyd i gyfeiriadau ar-lein yn:
(dadl.imascientist.org.uk/vaccinations-debate-kit-resources/)

Diolch yn arbennig i Beverley Hoekstra a Dr Cliodna McNulty, arweinwyr y tîm e-Bug yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Joanne Yarwood, Louise Letley a Matthew Donati o Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Dr Helen Bedford Uwch Ddarlithydd yn Sefydliad Iechyd Plant UCL, Joanna Verran ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion a Wendy Barclay yng Ngholeg Imperial Llundain.

Cynhyrchwyd y pecyn gan dîm I'm a Scientist a'i ariannu gan e-Bug, prosiect a weithredir gan Public Health England. Dosbarthwyd yn yr Iwerddon wedi'i ariannu gan 'Science Foundation Ireland'.

e-Bug www.e-bug.eu

sfi Discover Science Foundation Ireland

Trwyddedir y gwaith hwn o dan Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0 International License. I weld copi o'r drwydded, ewch i http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/

cc BY NC SA